

Fferm Wynt Foel Fach Wind Farm

Croeso / Welcome

Fferm Wynt Mynydd y Betws ESB yn Sir Gaerfyrddin

Croeso i'n hymgyngoriad cyhoeddus cyntaf ar Fferm Wynt arfaethedig Foel Fach.

Rydym yn archwilio'r potensial ar gyfer fferm wynt newydd ar dir i'r gogledd-ddwyrain o Frongoch, ger Y Bala yng Ngwynedd.

Amdanom ni

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gan Coriolis Energy ac ESB. Mae Coriolis Energy yn ddatblygwr ynni gwynt profiadol, proffesiynol, sydd wedi cyflawni prosiectau ledled y DU sydd ar hyn o bryd yn dod â buddion i gymunedau a'r amgylchedd.

ESB yw prif gwmni ynni Iwerddon ac mae'n gynhyrchydd pŵer annibynnol blaenllaw yn y DU, wedi ymrwymo i fuddsoddi yn adnoddau naturiol Cymru.

Rydym hefyd yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid cyflawni profiadol mewn perthynas â chronfeydd budd cymunedol a chynigion cydberchnogaeth gymunedol.

Y camau nesaf a'r ymgynghoriad

Diolch am roi o'ch amser i ymweld â'r arddangosfa hon a darganfod mwy am y prosiect arfaethedig. Rydym yn awyddus i glywed eich barn, felly rhowch wybod i ni drwy unrhyw un o'r dulliau a restrir ar y dde.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r cyfnod anffurfiol hwn o ymgynghori yw **14 Hydref 2024**. Yna byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn mireinio ein cynigion cyn cam nesaf yr ymgynghoriad.

Rydym yn bwriadu cynnal cam ymgynghori ffurfiol pellach yn ystod gwanwyn/haf 2025 lle bydd ein cynlluniau wedi'u mireinio a drafft o'r dogfennau cais cynllunio yn cael eu rhannu.



Ffurflenni adborth - ar gael mewn digwyddiadau arddangosfeydd cyhoeddus a thrwy wefan y prosiect.



E-bost - gellir anfon adborth ysgrifenedig at gyfeiriad e-bost y prosiect cyswllt@foelfach.cymru.



Rhadbost - ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad '**RHADBOST FOEL FACH**'. Does dim angen rhoi stamp ar yr amlen.



Ffôn - **01678 550032** rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.



Gwefan y prosiect - www.foelfach.cymru

ESB's Mynydd y Betws Wind Farm in Carmarthenshire

Welcome to our first public consultation on the proposed Foel Fach Wind Farm.

We are exploring the potential for a new wind farm on land to the north east of Frongoch, near Bala in Gwynedd.

About us

This project is being developed by Coriolis Energy and ESB in partnership. Coriolis Energy is an experienced, professional wind energy developer, which has delivered projects around the UK that are currently bringing benefits to both communities and the environment.

ESB is Ireland's premier energy company and is a leading independent power generator in the UK, committed to investing in Wales's natural resources.

We also aim to work with experienced delivery partners in relation to community benefit funds and community shared ownership proposals.

Next steps and consultation

Thank you for taking the time to visit this exhibition and find out more about the proposed project. We are keen to hear your views, so please let us know these via any of the methods listed to the right.

The deadline for responses to this informal phase of consultation is **14 October 2024**. We will then analyse responses received and refine our proposals prior to the next stage of consultation.

We are intending to undertake a further formal stage of consultation in spring/summer 2025 where our refined plans and a draft of the planning application documents will be shared.



Feedback forms - available at public exhibition events and via the project website.



Email - written feedback can be provided via the project email address cyswllt@foelfach.cymru.



Freepost - write to us using the address '**FREEPOST FOEL FACH**'. There's no need to put a stamp on the envelope.



Phone - **01678 550032** between 9am to 5pm, Monday to Friday.



Project website - www.foelfach.cymru

Pam gwynt ar y tir? *Why onshore wind?*



Newid hinsawdd

Un o'r prif yrwyr ar gyfer datblygu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yw newid hinsawdd.

Rydym ar bwynt tyngedfennol. Tymheredd cyfartalog byd-eang y flwyddyn hyd yn hyn (Ionawr-Awst 2024) yw'r uchaf a gofnodwyd erioed ar gyfer y cyfnod hwn ac mae'n fwyfwy tebygol mai 2024 fydd y **flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd erioed**.

Ym mis Ebrill 2019, **datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd**, ac ers hynny mae wedi derbyn cyngor Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd i anelu at gyrraedd sero net erbyn 2050 (gyda gostyngiad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030). Mae gan Lywodraeth Cymru darged i sicrhau 100% o ddefnydd trydan Cymru drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.

Ein nod yw gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflawni'r targedau lleihau allyriadau ac ynni adnewyddadwy hyn drwy ddarparu Fferm Wynt Foel Fach.

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd a natur ac yn anelu at fod yn gyngor sero net erbyn 2030.

Cynhyrchu ynni

Yn 2022, daeth 59% o ddefnydd trydan blyneddol Cymru o ffynonellau adnewyddadwy. **Mae disgwyl i'r galw am drydan gynyddu**, a rhagwelir y bydd y defnydd o drydan yng Nghymru bron â threblu erbyn 2050 oherwydd trydaneiddio gwres a thrafnidiaeth.

Carbon isel

Byddai datblygiadau mewn technoleg tyrbinau yn galluogi'r prosiect i sicrhau manteision amgylcheddol sylweddol o ôl troed llai fyth, trwy wrthbwyso allyriadau CO2 o gynhyrchu trydan sy'n seiliedig ar danwydd ffosil.

Cost is

Ynni gwynt ar y tir yw'r ffurf rataf o gynhyrchu pŵer newydd yn y DU erbyn hyn. Bydd cynyddu cynhyrchiant trydan adnewyddadwy yn ddomestig yn lleihau ein dibyniaeth ar gyflenwadau ynni sy'n cael eu mewnfario a bydd hyn yn sefydlogi ac yn lleihau costau dros amser.

Diogeled ynni

Mae gan wynt ar y tir ran allweddol i'w chwarae yng nghymysgedd ynni'r DU. Mae gwynt yn adnodd adnewyddadwy sefydlog, nad yw'n cael ei effeithio gan broblemau cyflenwi sy'n gysylltiedig â thrydan sy'n cael ei fewnfario.



Climate change

A key driver for the development of renewable energy generation projects is climate change.

We are at a critical point. The year-to-date (January–August 2024) global average temperature is the highest on record for this period and it is increasingly likely that 2024 is going to be the **warmest year on record**.

In April 2019, the **Welsh Government declared a climate emergency**, and has since accepted the advice of the UK Committee on Climate Change to aim to reach net zero by 2050 (with a 63% reduction in emissions by 2030). The Welsh Government has a target to deliver 100% of Welsh electricity consumption through renewable sources by 2035.

We aim to make a substantial contribution towards achieving these emissions reduction and renewable energy targets through delivering Foel Fach Wind Farm.

Gwynedd Council has declared a climate and nature emergency and aims to be a net zero council by 2030.

Energy generation

In 2022, 59% of Wales' annual electricity consumption came from renewable sources. **Demand for electricity is expected to rise**, with electricity consumption in Wales projected to nearly triple by 2050 due to the electrification of heat and transport.

Low carbon

Advances in turbine technology would enable the project to deliver significant environmental benefits from an ever-smaller footprint, by offsetting CO2 emissions from fossil fuel-based electricity production.

Lower cost

Onshore wind energy is now the cheapest form of new power generation in the UK. Increasing renewable electricity production domestically will reduce our reliance on imported energy supplies and this will stabilise and reduce costs over time.

Energy security

Onshore wind has a key role to play in the UK's energy mix. Wind is a stable renewable resource, which is unaffected by supply issues associated with imported electricity.

Ein cynigion *Our proposals*

Mae safle'r fferm wynt arfaethedig wedi ei leoli tua 3.5 km i'r gogledd o'r Bala. Mae'r rhan fwyaf o'r safle'n dir mynediad agored, ac yn cynnwys rhostir pori agored yn bennaf gyda rhai ardaloedd coediog.


Mae'r lleoliad yn cynrychioli **safle posibl da** ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y tir: mae'n rhydd o ddynodiadau tirwedd ac amgylcheddol a warchodir yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ac mae'n ardal fawr gydag adnoddau gwynt da, wedi'i gwahanu'n dda oddi wrth gymunedau cyfagos.

Gallai'r fferm wynt arfaethedig ddarparu hyd at **79.2MW** o ynni adnewyddadwy, digon o ynni adnewyddadwy i bweru **dros 55,000 o gartrefi**¹.

Mae dyluniad y fferm wynt arfaethedig yn debygol o esblygu yn ystod y prosiect, fodd bynnag ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y prosiect yn cynnwys:

- Hyd at 11 tyrbîn o hyd at 220m o uchder i flaen y llafnau
- Trawsnewidyddion naill ai o fewn neu gerllaw'r tyrbînau
- Traciau mynediad ar y safle a cheblau tanddaearol
- Is-orsaf/adeilad rheoli ar y safle
- Cyfleuster storio ynni batris
- Un neu fwy o fastiau anemometreg parhaol
- Pyllau benthyg (lle bo'n ymarferol)
- Un neu fwy o gyrtiau adeiladu dros dro

Hyd oes y prosiect arfaethedig fyddai hyd at 40 mlynedd o'i gomisiynu i'w ddatgomiynu.



Rydym yn dal i fod yn y camau cynnar o ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y safle a byddem yn croesawu eich adborth ar y cynigion cychwynnol, ac a oes unrhyw faterion penodol (amgylcheddol, mynediad i'r safle ac ati) y teimlwch y dylem eu hystyried wrth i ni fireinio ein cynlluniau. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau i'r tîm a **llenwi ffurflen adborth heddiw**.



Sganiwch y cod QR i lenwi ffurflen adborth ar-lein neu ewch i www.foelfach.cymru

[1] $11 \times 7.2\text{MW} \times 8760 \text{ awr/blwyddyn} \times 26.34\% \text{ ffactor capasiti} = 182,744.813 \text{ MWh/blwyddyn}$ wedi'i rannu â defnydd domestig cyfartalog cartrefi Prydain $3,239\text{kWh/blwyddyn} = 56,420 \text{ cartref}$ (ystadegau DESNZ/DUKES)



Fferm Wynt Mynydd y Betws ESB yn Sir Gaerfyrddin / ESB's Mynydd y Betws Wind Farm in Carmarthenshire

The proposed wind farm site is located approximately 3.5 km north of Bala. The majority of the site is open access land, and largely comprises open grazing moorland with some wooded areas.


The location represents a **good potential site** for onshore wind generation: it is free from nationally or internationally protected landscape and environmental designations, and is a large area with good wind resource, well separated from nearby communities.

The proposed wind farm could provide up to **79.2MW** of renewable energy generation, enough renewable energy to power **over 55,000 homes**¹.

The design of the proposed wind farm is likely to evolve during the course of the project, however at this initial stage, the project is currently envisaged as comprising:

- Up to 11 turbines of up to 220m maximum tip height
- Transformers housed either within or adjacent to turbines
- Onsite access tracks and underground cable runs
- Onsite substation/control building
- A battery energy storage facility
- One or more permanent anemometry masts
- Borrow pits (where feasible)
- One or more temporary construction compound

The lifetime of the proposed project would be up to 40 years from commissioning to decommissioning.



We are still in the early stages of developing our plans for the site and would welcome your feedback on the initial proposals and whether there are any specific issues (environmental, site access etc.) which you feel we should consider as we refine our plans. Please ask the team any questions you may have and **complete a feedback form today**.






Scan the QR code to complete the feedback form online or go to www.foelfach.cymru

[1] $11 \times 7.2\text{MW} \times 8760 \text{ hrs/yr} \times 26.34\% \text{ capacity factor} = 182,744.813 \text{ MWh/yr}$ divided by average annual GB domestic household consumption $3,239\text{kWh/year} = 56,420 \text{ homes}$ (DESNZ statistics/DUKES)

Map o'r safle *Site map*

Allwedd/Key

-  Lleoliad y safle / Site location
-  Lleoliadau dangosol y tyrbinau / Indicative turbine locations



Amserlen Timeline



Delwedd gyffredinol at ddiben esbonio yn unig / Stock image for illustration only

Rydym yng nghamau cynnar datblygu ein cynlluniau ar gyfer Fferm Wynt arfaethedig Foel Fach.

Mae'r prosiect yn cael ei ddsbarthu fel **Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)** o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 gan y byddai'n darparu dros 10 MW o ynni glân, adnewyddadwy.

Bydd y cais cynllunio yn cael ei wneud i **Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC)**, a fydd yn archwilio'r cais ac yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch rhoi caniatâd cynllunio.

Gan fod y safle wedi'i leoli'n rhannol ar dir comin, bydd cais eilaidd am Ganiatâd Tir Comin yn cael ei wneud o dan y Ddeddf Tiroedd Comin. Bydd y cais yn cynnig tir amnewid yn gyfnewid am dir a ddefnyddir gan y datblygiad. Ni fyddai unrhyw dir comin yn cael ei golli o ganlyniad i'r fferm wynt.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd ac yn ymgysylltu ag ymgynghoreion arbenigol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol cyfagos Conwy.

We are at the early stages of developing our plans for the proposed Foel Fach Wind Farm.


The project is classed as a **Development of National Significance (DNS)** under the Planning (Wales) Act 2015 as it would deliver over 10 MW of clean, renewable energy.

The planning application will be made to **Planning and Environment Decisions Wales (PEDW)**, which will examine the application and make a recommendation to Welsh Ministers, who take the final decision whether to grant planning permission.

As the site is partially located on common land, a secondary consent application will be made for

Common Land Consent under the Commons Act. The application will propose replacement land in exchange for land used by the development. There would be no overall loss of common land as a result of the wind farm.

We will work closely with Gwynedd Council and will engage with specialist consultees such as Natural Resources Wales, Eryri National Park Authority and neighbouring Conwy County Borough Council.



Rydyn ni yma – Hydref 2024
 Ymgynghoriad cymunedol ar gynlluniau drafft cyfnod cynnar 16 Medi – 14 Hydref 2024. Digwyddiadau arddangosfeydd cyhoeddus ac adolygu adborth.

Gaeaf 2024
 Arolygon ac asesiadau pellach, adolygu adborth a mireinio ein cynlluniau drafft.

Gwanwyn/Haf 2025
 Ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ar y Datganiad Amgylcheddol drafft, digwyddiadau ymgynghori cymunedol ac adolygu adborth.

Gaeaf 2025
 Cyflwyno cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

2026
 Disgwylir penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol *Environmental Impact Assessment*

Mae'r broses o wneud cais cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) i **asesu effeithiau amgylcheddol posibl** y fferm wynt.

Rydym wedi dechrau ar y broses AEA o gynnal amrywiaeth eang o arolygon ac asesiadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno fel **Datganiad Amgylcheddol (DA)** a bydd yn ymdrin â'r meysydd a nodir ar y bwrdd hwn a'r tri bwrdd nesaf.

Bioamrywiaeth

Fel rhan o'n gwaith cynnar, rydym wedi cynnal ystod eang o **arolygon ecolegol ac adaregol** o fewn ac o amgylch y safle. Mae'r arolygon a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Dosbarthiad cynefinoedd a llystyfiant
- Mamaliaid daearol gan gynnwys y mochyn daear, y dyfrgi a llygoden y dŵr
- Ystlumod
- Ymlusgiaid
- Arolygon adar dros gyfnod o 2 flynedd

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolygon a'r ymgynghoriad hyd yma, mae'r rhywogaethau gwarchoddedig allweddol sydd i'w hystyried yn y DA yn cynnwys y barcud coch, y cwtiad aur, y boda tinwyn, y gylfinir, y cudyll coch ac ystlumod. Yn ogystal ag asesu effeithiau tebygol y fferm wynt ar gynefinoedd a rhywogaethau allweddol, bydd y DA yn ystyried effeithiau posibl ar safleoedd statudol cyfagos a ddynodwyd ar gyfer **cadwraeth natur** neu **warchod bywyd gwyllt** gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Migneint-Arenig-Dduallt a

Berwyn, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Llyn Tegid ac Afon Dyfrdwy, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Dyfrdwy. Mae gwaith arolygu cynnar wedi ein galluogi i 'wreiddio lliniaru' yng nghynllun y cynllun drwy nodi'r meysydd allweddol o bwysigrwydd ecolegol ac adaregol a cheisio osgoi neu leihau effeithiau ar y rhain. Bydd mesurau lliniaru pellach yn cael eu hymgorffori, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu a bydd y rhain yn cael eu nodi mewn **Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CRhAA)**.

Bydd **Cynllun Rheoli Cynefinoedd (CRhC)** yn cael ei ddatblygu a fydd yn manylu ar sut y byddwn yn gofalu am gynefinoedd a bioamrywiaeth ar y safle ac yn cyflawni **Budd Net i Fioamrywiaeth**. Gallai mesurau gwella i'w hystyried gynnwys gwella'r rhostir a'r gweundir presennol, gan gynnwys targedu mawndiroedd wedi'u haddasu a'u diraddio, a phlannu coed a phrysgwydd brodorol o amgylch y cyrsiau dŵr ar y safle, i wella cysylltedd cynefinoedd.

Rydym yn croesawu eich barn ar sut y gallem wella bioamrywiaeth ar y safle.

Barcud coch / Red kite

The planning application process requires an Environmental Impact Assessment (EIA) to be undertaken to **assess potential environmental effects** the wind farm could have.

We have started the EIA process of undertaking a wide range of surveys and assessments. This work will continue as we develop our plans. The findings will be presented as an **Environmental Statement (ES)** and will cover the areas detailed on this and the following three boards.

Biodiversity

As part of our early work, we have undertaken a wide range of **ecological and ornithological surveys** within and surrounding the site. Surveys carried out include:


- Habitat and vegetation classification
- Terrestrial mammals including badger, otter and water vole
- Bat
- Reptile
- Bird surveys over a 2-year period

Based on the survey results and consultation to date, key protected species to be considered within the ES include red kite, golden plover, hen harrier, curlew, kestrel and bats. In addition to assessing the likely impacts of the wind farm on key habitats and species, the ES will consider potential effects on nearby statutory sites designated for **nature conservation** or **wildlife protection** including Migneint-Arenig-Dduallt and Berwyn Special Protection Areas, the River Dee and Bala Lake Special Areas of Conservation, and River Dee Site

of Special Scientific Interest. Early survey work has allowed us to 'embed mitigation' in the scheme design by identifying the key areas of ecological and ornithological importance and seeking to avoid or minimise impacts upon these. Further mitigation measures will be incorporated, particularly during the construction period and these will be set out in a **Construction Environmental Management Plan (CEMP)**.

A **Habitat Management Plan (HMP)** will be developed which will detail how we will look after habitats and biodiversity on the site and achieve an overall **Net Benefit for Biodiversity**. Enhancement measures to be considered could include enhancing the existing moorland and heath, including targeting modified and degraded peatland, and planting native trees and scrub around the watercourses on the site, to improve habitat connectivity.

We welcome your views about how we could enhance biodiversity on the site.



Tir, pridd a dŵr

Bydd y safle a'r ardal gyfagos yn cael eu harolygu i gasglu gwybodaeth am yr amodau **hydroddaearegol, hydrolegol, pridd a mawn**.

Mae mawn yn chwarae rhan bwysig wrth amsugno carbon o'r atmosffer. Mae arolwg dyfnder mawn cychwynnol wedi'i gynnal er mwyn i ni ddeall ble mae ardaloedd o fawn dyfnach ar y safle. Byddwn yn cynnal arolygon mawn pellach wrth i'n cynlluniau ddatblygu a fydd yn ein galluogi i leihau'r effeithiau ar yr ardaloedd hyn wrth ddylunio cynllun y safle lle bynnag y bo modd.

Bydd yr asesiad yn ystyried effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar greigwelyau a phriddoedd, defnydd tir, cyrff dŵr, cyflenwadau dŵr preifat, mawn, ardaloedd dynodedig a pherygl llifogydd.

Trwy gyfrwng dyluniad y cynllun rydym yn bwriadu lleihau unrhyw effeithiau ar dir, pridd a dŵr, a, lle bo'n briodol, cynigir mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir.

Treftadaeth ddiwylliannol

Rydym yn ymwybodol o nifer o ystyriaethau treftadaeth ddiwylliannol yn yr ardal leol gan gynnwys asedau hanesyddol heb eu dynodi o fewn ffin y safle, a nifer o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig, a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig o fewn yr ardal ehangach o'i amgylch.

Yn ogystal ag astudiaeth desg gychwynnol i lywio ein gwaith arolygu manwl, byddwn yn cynnal Asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol, a fydd yn llywio dyluniad y cynigion ac yn nodi lle gallai fod angen mesurau lliniaru.

Land, soil and water

The site and surrounding area will be surveyed to gather information about the **hydrogeological, hydrological, soil** and **peat** conditions.

Peat plays an important role in absorbing carbon from the atmosphere. An initial peat depth survey has been undertaken so we can understand where there are areas of deeper peat on the site. We will undertake further peat surveys as our plans develop which will enable us to reduce impacts on these areas in our design for the site layout wherever possible.

The assessment will consider the potential impact of the proposed development on bedrock and soils, land use, water bodies, private water supplies, peat, designated areas and flood risk.

Through scheme design we intend to minimise any effects on land, soil and water, and, where appropriate, mitigation will be proposed to address any identified issues.

Cultural heritage

We are aware of a number of cultural heritage considerations in the local vicinity including non-designated historic assets within the site boundary, and a number of listed buildings, scheduled monuments, Registered Historic Parks and Gardens, and Registered Historic Landscapes within the wider surrounding area.

In addition to an initial desk top study to inform our detailed survey work, we will be undertaking a Cultural Heritage Assessment, which will inform the design of the proposals and identify where any mitigation may be required.

Tirwedd a gweledol

Bydd **Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol** yn ystyried yn ofalus effaith bosib y fferm wynt arfaethedig ar gymeriad y dirwedd ac ar olygfeydd pobl sy'n byw gerllaw. Mae dynodiadau tirwedd allweddol a fydd yn cael eu hystyried o fewn yr Asesiad yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri a'i statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac Ardal Tirwedd Arbennig Cefnwlad y Bala.

Bydd asesiad o'r effaith weledol o wahanol olygfannau o amgylch y safle yn cael ei gynnal a byddwn yn datblygu delweddau dangosol i ddangos sut fydd y safle'n edrych o'r lleoliadau hyn er mwyn ein helpu i ddylunio'r cynigion. Rydym hefyd wedi paratoi model 3D cyfrifiadurol i ddarparu delweddiad o sut y byddai'r fferm wynt yn edrych yn y dirwedd ac o eiddo ac aneddiadau cyfagos. Mae'r model hwn ar

Landscape and visual

A **Landscape and Visual Impact Assessment (LVIA)** will carefully consider the potential effect of the proposed wind farm on the character of the landscape and on the views of people who live nearby. Key landscape designations that will be considered within the LVIA include Eryri National Park and its International Dark Sky Reserve status, the Clwydian Range and Dee Valley National Landscape, and the Bala Hinterlands Special Landscape Area.

An assessment of the visual impact from various viewpoints around the site will be undertaken and we will develop indicative imagery to show what the site may look like from these locations in order to help us design the proposals. We have also prepared a computerised 3D model to provide a visualisation of how the wind farm would look in the landscape

gael i'w weld heddiw, gofynnwch i aelod o'r tîm am gymorth.


Bydd **asesiad cronol** o sut y byddai'r cynllun yn ffitio i'r dirwedd bresennol yn ogystal ag yng nghyd-destun ffermydd gwynt eraill presennol ac arfaethedig yn rhan o'r gwaith hwn.

Mae rhywfaint o waith cynnar wedi'i wneud ar hyn eisoos gan gynnwys cynhyrchu mapiau Parthau Gwelededd Damcaniaethol (PGD), sydd i'w weld ar y bwrdd hwn. Mae'r PGD yn nodi lle gallai'r tyrbinau fod yn weladwy, ond rhaid nodi nad yw hyn ystyried adeiladau presennol, coed nac unrhyw beth arall 'uwchben' y ddaear a fyddai'n cyfyngu ymhellach ar welededd y datblygiad arfaethedig.

and from nearby properties and settlements. This model is available to view today, please ask a member of the team for assistance.

A **cumulative assessment** of how the scheme would fit into the existing landscape as well as in the context of other existing and proposed wind farms will form part of this work.

Some early work on this has already been undertaken including the production of Zones of Theoretical Visibility (ZTV) mapping, which can be seen on this board. The ZTV indicates where the turbines could be visible, however it must be noted that this doesn't take into account existing buildings, trees or anything else 'above' ground which would further restrict visibility of the proposed development.



Allwedd / Key

- Ffin y safle / Site boundary
- Cynllun dangosol y tyrbinau / Indicative turbine layout
- Golygfannau arfaethedig / Proposed viewpoint
- Golygfannau gwifrau yn unig / Wireline viewpoint only
- Ardal astudio 35km / 35km study area

- Ffin yr awdurdod lleol / Local authority boundary
- Parciau cenedlaethol / National parks
- Tirweddau cenedlaethol (AHNE gynt) / National landscapes (formerly AONB)
- Ardal dirwedd arbennig / Special landscape area

- Parthau gwelededd damcaniaethol (220m BTH) / Zone of theoretical visibility (220m BTH)
- 1 i 3 tyrbîn yn weladwy / 1 to 3 turbines visible
- 4 i 6 tyrbîn yn weladwy / 4 to 6 turbines visible
- 7 i 9 tyrbîn yn weladwy / 7 to 9 turbines visible
- 10 i 11 tyrbîn yn weladwy / 10 to 11 turbines visible

Gwaith adeiladu, traffig a thrafnidiaeth

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried nifer o opsiynau llwybrau gwahanol ar gyfer cludo cydrannau a mynediad gwaith adeiladu i'r safle. Bydd mynedfa'r safle wedi ei leoli i'r gorllewin o'r safle o'r B4501. Byddwn yn cytuno ar **Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu** gyda'r awdurdodau prifffyrdd lleol a fydd yn cynnig mesurau i reoli'r broses o gludo deunyddiau a staff i'r safle yn ystod y cyfnod adeiladu.

Bydd asesiad cronol o effeithiau traffig o brosiectau cyfagos sydd ar raddfa sylweddol hefyd yn cael ei gynnal.

Mae'n debygol y bydd y gwaith adeiladu yn cymryd tua 18 i 24 mis ac yn cynhyrchu graddau amrywiol o weithgarwch a thraffig.

Defnyddir deunydd o ffynonellau lleol lle bo hynny'n ymarferol er mwyn lleihau'r teithio.

Dywedwch wrthym beth yw'r ffordd orau o reoli mynediad i'r safle yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu, yn eich barn chi.

Hedfan

Byddwn yn asesu unrhyw effeithiau posibl ar **awyrennau a radar** a chynhelir ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a NATS En Route plc. i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl.

Cysylltiad grid

Bydd y cysylltiad o Fferm Wynt Foel Fach i'r Grid Cenedlaethol yn destun cais cynllunio ar wahân.

Sŵn

Cynhyrchir sŵn o fferm wynt weithredol yn bennaf o gylchdroi'r llafnau ac, o bosibl, o symudiadau mecanyddol mewnol. Deellir sŵn tyrbinau gwynt gweithredol yn dda ac mae'n cael ei reoleiddio'n effeithiol gan ddogfen **gyfarwyddyd gymeradwy'r llywodraeth** ETSU-R-97.

Bydd effeithiau sŵn posibl o adeiladu'r fferm wynt ac effeithiau sŵn cronol gyda datblygiadau ynni gwynt cyfagos hefyd yn cael eu hystyried.

Bydd lefelau sŵn presennol yn cael eu hasesu o nifer o leoliadau o amgylch y safle. Bydd y data sylfaenol hwn wedyn yn ein galluogi i ystyried unrhyw effeithiau posibl a allai ddeillio o sŵn disgwylidig a gynhyrchir gan ddatblygiad a gweithrediad y prosiect. Lle bo'n briodol, bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir.

Bydd amodau cynllunio a osodir ar unrhyw ganiatâd yn rheoli lefelau sŵn a gynhyrchir yn ddigonol, a bydd awdurdodau lleol yn gallu ymchwilio i unrhyw dramgwydd posibl a chymryd camau gorfodi os oes angen.



Delwedd gyffredinol at ddiben esbonio yn unig / Stock image for illustration only

Construction, traffic and transport

We are currently considering a number of different route options for component delivery and construction access to the site. The site entrance will be located at the west of the site from the B4501. We will agree a **Construction Traffic Management Plan** with the local highways authorities which will propose measures to control the delivery of materials and staff onto the site during the construction phase.

Cumulative assessment of traffic effects from nearby projects that are of a significant scale will also be undertaken.

Construction is likely to take approximately 18 to 24 months and generate varying degrees of activity and traffic.

Locally sourced material will be used where feasible to reduce the amount of travel.

Please tell us how you think we could best manage access to the site during and after construction.

Aviation

We will be assessing any potential impacts on **aviation and radar** and consultation will be carried out with the Ministry of Defence and NATS En Route plc. to ensure that we address any potential issues.

Grid connection

The connection from Foel Fach Wind Farm to the National Grid will form a separate planning application.

Noise

Noise from an operating wind farm is mainly generated from the rotation of the blades and, potentially, from internal mechanical movements. Operational wind turbine noise is well understood and is effectively regulated by **government approved guidance** document ETSU-R-97.

Potential noise impacts from the construction of the wind farm and cumulative noise impacts with other nearby wind energy developments will also be considered.

Existing noise levels will be assessed from a number of locations surrounding the site. This baseline data will then allow us to consider any potential impacts that may arise from expected noise generated by the development and operation of the project. Where appropriate, measures will be put in place to address any issues identified.

Planning conditions imposed on any consent will adequately control noise levels generated, and local authorities will be able to investigate any possible breaches and take enforcement actions if necessary.

Buddion cymunedol *Community benefits*

Cronfa Budd Cymunedol

Mae'n bleser cynnig Cronfa Budd Cymunedol flaengar o **£8,000 y MW** y flwyddyn am oes weithredol Fferm Wynt Foel Fach (hyd at 40 mlynedd).

Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid cyflawni lleol posibl i archwilio ffyrdd o sicrhau bod y gronfa hon yn cael ei sefydlu'n briodol fel ei bod yn cwrdd ag anghenion lleol, y gellir cael mynediad hawdd ati, a'i bod yn cael ei darparu mewn ffordd syml.

Rhannwch eich syniadau ar gyfer y Gronfa Budd Cymunedol a sut y gallwn sicrhau cymaint o fudd lleol â phosibl.

Rhanberchnogaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru darged i 1.5 GW o ynni adnewyddadwy fod â pherchnogaeth leol a rhanberchnogaeth erbyn 2035.

Rydym yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â **Ripple Energy** gyda'r nod o ddatblygu model perchnogaeth gymunedol - y cyntaf o'i fath. Byddai trigolion lleol, busnesau a grwpiau cymunedol yn gallu prynu cyfranddaliadau yn y fferm wynt a **chael arbedion ar eu biliau trydan** trwy gydol oes weithredol y fferm wynt.

Bydd rhagor o fanylion am y cyfle yn cael eu cyflwyno wrth i'n cynigion ddatblygu. Gallwch ddarllen am astudiaethau achos llwyddiannus Ripple Energy gan gynnwys ffermydd gwynt Graig Fatha, Kirk Hill a Whitelaw Brae, a Fferm Solar Derril Water ar wefan Ripple Energy www.rippleenergy.com.

Siaradwch â thîm Ripple Energy heddiw i gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb.

Y gadwyn gyflenwi

Rydym yn awyddus i weithio gyda'r **gadwyn gyflenwi leol** lle bynnag y bo modd i ddarparu'r gwasanaethau, y cydrannau a'r deunyddiau sydd eu hangen arnom ar gyfer y prosiect hwn.

Os ydych chi'n fusnes lleol sydd â diddordeb mewn bod yn ddarpar gyflenwr i ni, llenwch y ffurflen Cysylltwch â Ni ar ein gwefan a thiciwch y blwch i ddweud bod gennych ddiddordeb yn y gadwyn gyflenwi.

Buddion lleol eraill

Yn ogystal â thalu ardrethi busnes sylweddol, bydd llawer o fanteision lleol eraill. Rydym yn archwilio ffyrdd o warchod a gwella **bioamrywiaeth**, gwella mynediad cyhoeddus a **hawliau tramwy**, a chyfluoedd i weithio gyda darparwyr **addysg** lleol.

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn ar ble y gallem ddarparu buddion lleol eraill.



Community Benefit Fund

We are excited to offer an industry leading Community Benefit Fund of **£8,000 per MW** per year for the operational lifetime of Foel Fach Wind Farm (up to 40 years).

We will work with the community and potential local delivery partners to explore ways to ensure that this fund is appropriately set up so that it meets local needs, can be easily accessed, and is delivered in a straightforward way.

Tell us your ideas for the Community Benefit Fund and how we can ensure as much local benefit as possible.

Shared ownership

Welsh Government has a target for 1.5 GW of renewable energy generation to have local and shared ownership by 2035.

We are proud to be working in partnership with **Ripple Energy** with the aim to develop a first-of-a-kind community ownership model. Local residents, businesses and community groups would be able to buy shares in the wind farm and **receive savings on their electricity bills** throughout the operational lifetime of the wind farm.

Further details on the opportunity will be presented as our proposals evolve. You can read about successful Ripple Energy case studies including Graig Fatha, Kirk Hill and Whitelaw Brae wind farms, and Derril Water Solar Farm on the Ripple Energy website www.rippleenergy.com.

Talk to the Ripple Energy team today to find out more and to register your interest.

Supply chain

We are keen to work with the **local supply chain** wherever possible to deliver the services, components and materials we need for this project.

If you are a local business interested in being a potential supplier to us, please complete the Get in Touch form on our website and tick the box to say you are interested in supply chain.

Other local benefits

On top of the payment of substantial business rates, there will be many other local benefits. We are exploring ways of protecting and enhancing **biodiversity**, improving public access and **rights of way**, and opportunities to work with local **education** providers.

Please let us know your thoughts on where we may be able to provide other local benefits.

